



Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru Cam 1, Pasg 2019 – Crynodeb


Beth yw'r Baromedr Twristiaeth?

Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru'n rhoi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â chyfnod y Pasg.

Mae cwmni Strategic Research and Insight, asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, wedi cyflawni 819 cyfweiliad teleffon gyda busnesau twristiaeth yn y sectorau canlynol: llety â gwasanaeth, hunanddarpar, safleoedd carafanau a gwerysilla, atyniadau, darparwyr gweithgareddau a bwytai, tafarnau a chaffis.

Pasg hwyr a thywydd gwell yn denu ymwelwyr

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (86%) wedi cynyddu neu gynnal lefelau eu hymwelwyr y Pasg eleni. Ymysg y 39% sydd wedi gweld cynnydd yn eu hymwelwyr, y rheswm mwyaf cyffredin yw 'tywydd gwell' - a nodwyd gan ddau draean o'r ymatebwyr hyn. Mae nifer o ardaloedd yng Nghymru wedi mwynhau heulwen braf drwy gydol penwythnos y Pasg. Roedd y ffaith bod y Pasg yn hwyr eleni wedi helpu'r tebygolrwydd o gael tywydd braf - roedd un traean o'r rheini a welodd gynnydd yn niferoedd eu hymwelwyr yn nodi 'Pasg hwyr' fel ffactor cadarnhaol.




Pob ardal yng Nghymru yn perfformio'n dda

Mae de-orllewin Cymru wedi mwynhau Pasg eithriadol o dda, gyda 44% o fusnesau wedi cynyddu eu hymwelwyr. Mae pob ardal yng Nghymru wedi gweld cynnydd, a'r prif resymau oedd tywydd gwell a Phasg hwyr fel y trafodwyd uchod.

Mae'r sectorau sy'n gallu manteisio ar dywydd da ar fyr rybudd, wedi elwa fwyaf

Mae sectorau lle nad oes angen i ymwelwyr archebu ymlaen llaw, os o gwbl, wedi perfformio'n arbennig o dda. Ar y llaw arall mae'r sector hunanddarpar, lle mae tuedd i archebu lle ymlaen llaw, wedi bod yn sefydlog.


Mae'r sector atyniadau ar i fyny ar y cyfan, ond mae atyniadau dan do wedi bod yn dawelach am fod tywydd 'da' i bawb arall ddim o reidrwydd yn 'dda' iddyn nhw.



Hyder mawr ar gyfer yr haf

Yn dilyn Pasg braf, mae'r mwyafrif helaeth (85%) o weithredwyr yn hyderus ar gyfer yr haf. Mae Pasg braf wedi gwneud i'r sector sy'n dibynnu'n helaeth ar y tywydd, y sector carafannau a gwrsylla, yn teimlo'n hynod optimistaidd, mae 97% o weithredwyr carafannau a gwrsylla yn hyderus ar gyfer yr haf.

Cyhoeddir adroddiad llawnach ar y cam ymchwil hwn yn hwyrach ym mis Mai.



Adroddiad ymchwil llawn: Lydall, A. (2019). Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 1, Pasg 2019.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 22/2019

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-cam-1-2019>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad

Croeso Cymru

Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Canolfan QED, Ystad Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83876-294-0